

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 22 MEDI 2021, trwy Zoom.

<u>Aelodau â phleidlais:</u>	Yr Athro Elizabeth Treasure, <u>Is-Ganghellor</u> ; Yr Athro Neil Glasser, <u>Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd)</u> ; Yr Athro Anwen Jones, <u>Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)</u> ; Yr Athro Qiang Shen, <u>Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol)</u> ; Yr Athro Tim Woods, <u>Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)</u> ; Dr Cathryn Charnell-White; Yr Athro Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Yr Athro Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Ms Mared Edwards, <u>Llywydd UMCA</u> ; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, <u>Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</u> ; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, <u>Swyddog Materion Academaidd UMABer</u> ; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Dr Heather Norris; Ms Sabina O'Donoghue, <u>Llywydd UMABer</u> ; Yr Athro Eleri Pryse; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, <u>Pennaeth Ysgol y Graddedigion</u> .
<u>Aelodau heb bleidlais:</u>	Yr Athro Simon Cox; Ms Rachael Davey; Yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; Yr Athro Emyr Lewis; Yr Athro Helen Roberts, <u>Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil</u> ; Dr Anoush Simon; a'r Athro Andrew Thomas.
<u>Yn gweinyddu:</u>	Mr Tim Davies, <u>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth</u> ; Mrs Jean Jones, <u>Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor</u> ; Dr Anel Marais; Mr Jamie Medhurst; Mr Geraint Pugh, <u>Ysgrifennydd y Brifysgol</u> ; a Ms Emma Williams, <u>Cofrestrydd Academaidd</u> .

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Simon Banham; Dr Andrew Davies; Yr Athro Nigel Holt; Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth, ac Arloesi); a Dr Sarah Wydall.

1. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor:
 1. Mared Edwards, Llywydd UMCA;
 2. Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMABer);
 3. Dr Heather Norris, cynrychiolydd etholedig yr Adran Seicoleg; a
 4. Sabina O'Donoghue, Llywydd UMABer.
2. Cafodd y canlynol hefyd eu croesawu yn sylwedyddion heb bleidlais o'u hadrannau academaidd:
 1. Dr Anel Marais, yn cynrychioli Adran y Gyfraith a Throsedddeg; a

2. Dr Jamie Medhurst, yn cynrychioli'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Mike Keen, cyn-Ddarlleneydd yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth;
2. Yr Arglwydd Elystan Morgan, a wasanaethodd yn Llywydd y Brifysgol a Chadeirydd y Cyngor rhwng 1997 a 2007; a
3. Dr Marie Rose Wasdell, cyn Warden a chyn aelod o'r staff academaidd.

2. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 (SEN2122-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2122-004).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. **PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2122-005).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar achosion ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd materion eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd, sef:

1. Ychwanegiad at y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn ymwneud â Chonfensiynau Arholi TAR, ar argymhelliad y Bwrdd Academaidd; a

2. Diwygiad i reoliadau yng nghyswllt Cydnabod Dysgu Blaenorol i'r cynlluniau Nyrsio Cyn-Cofrestru, yn unol â'r amodau cysylltiedig a wnaed gan y panel cymeradwyo allanol.

6. GOHEBIAETH

1. Y Ddarpariaeth Nyrsio

1. Ar 23 a 24 Mehefin croesawodd y Brifysgol ymweliad rhithiol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn rhan o'u trefn sicrhau ansawdd yng nghyswllt cais y Brifysgol i ddarparu hyfforddiant nyrsio.
2. Yn dilyn yr ymweliad hwnnw, roedd y CNB wedi cadarnhau'r ddwy raglen arfaethedig, ac roedd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) wedi cyhoeddi i'r Brifysgol lwyddo yn ei thendr am leoedd hyfforddi nyrsys yng Nghymru.
3. Ers hynny ysgrifennodd y CNB at yr Is-Ganghellor i roi cadarnhad ffurfiol o'i gymeradwyaeth i ddarpariaeth Nyrsio'r Brifysgol, gan fod yr holl amodau a godwyd yn yr ymweliad ym mis Mehefin wedi'u cyflawni. Caiff y garfan gyntaf o fyfyrwyr eu croesawu ym mis Medi 2022.

7. Y GANOLFAN SAESNEG RYNGWLADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (SEN2122-006).

NODWYD

1. Ar hyn o bryd roedd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol (SR) yn adran o fewn i Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Ond yn dilyn datblygu strategaeth effeithiol i ddenu myfyrwyr rhyngwladol dan arweiniad yr Adran Farchnata a Denu Myfyrwyr, cafodd swyddogaeth, darpariaeth a lleoliad y Ganolfan SR yn y dyfodol eu cloriannu.
2. Cynigiwyd felly fod y Ganolfan yn dechrau gweithio'n agosach a chael ei symud yn nes at y Swyddfa Farchnata a Denu Myfyrwyr i'w rhoi mewn sefyllfa fwy ffafriol i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r golwg ar y llwyfan rhyngwladol. Dywedwyd wrth yr aelodau ei bod yn beth cyffredin yn y sector i adrannau tebyg i'r Ganolfan SR fod yn rhan o'r gwaith denu myfyrwyr.
3. Cyn ad-drefnu'r Brifysgol yn 2018, nid oedd y Ganolfan yn cael ei chydabod yn ffurfiol fel adran academaidd mewn Cyfadran. Ond, dywedodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan eu bod wedi elwa o'r statws hwnnw dros y blynyddoedd diweddar, a bellach bod ei lleoliad yng Nghyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn ei rhoi mewn sefyllfa i fanteisio'n hwylus ar brosesau ansawdd academaidd.
4. Dywedwyd wrth yr aelodau fod enghreifftiau i'w cael o fewn i sefydliadau eraill lle cynigir cynlluniau academaidd gan adrannau nad ydynt yn rhan o gyfadran - mae Dysgu Gydol Oes ac Ysgol y Graddedigion yn ddwy enghraifft. Nid oedd yr adrannau hyn wedi profi unrhyw rwystrau wrth reoli gofynion sicrhau ansawdd academaidd, er bod angen cynllunio a rheoli gofalus i sicrhau cydweithrediadau effeithiol ar draws cyfadrannau ac adrannau gwasanaethau proffesiynol.

5. Trafododd aelodau'r Senedd yr amrywiol ddewisiadau ar gyfer cyrraedd y canlyniadau dymunol a nodwyd yn yr adroddiad, yn cynnwys y cynnig i symud un aelod o staff y Ganolfan SR i'r Uned Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu yn y Gwasanaethau Gwybodaeth.

PENDERFYNWYD (trwy **BLEIDLAIS**, un bleidlais wedi'i hatal)

6. Bod y Ganolfan SR - a'i holl weithwyr - yn cael ei gwneud yn rhan o'r Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr erbyn diwedd y semester cyfredol man pellaf, gan gadw cysylltiadau priodol â Chyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i ddibenion sicrhau ansawdd academiaidd [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)].
7. Y dylid yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol, adolygu'r ddarpariaeth o gymorth ieithyddol i fyfyrwyr y tu hwnt i'r Ganolfan, ar y ddealltwriaeth y gallai canlyniad yr adolygiad arwain at argymhellion pellach ynglŷn â ffurfwedd y Ganolfan o fewn i'r Adran Farchnata, ac ynglŷn â throsglwyddo staff i'r Uned Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu neu fannau eraill o fewn i fframwaith y sefydliad [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr)].
8. Y dylid cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor i ddiwygio Ordinhad 21 ("Unedau Academiaidd") i adlewyrchu'r penderfyniad uchod ynglŷn â lleoliad y Ganolfan SR yn y dyfodol [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

8. Y BWRDD ACADEMAIDD

1. Adroddiad o'r Bwrdd Academiaidd

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, ynglŷn â chyfarfod y Bwrdd Academiaidd a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021 (SEN2122-007); a
2. Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, ynglŷn â chyfarfod y Bwrdd Academiaidd a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 (SEN2122-008).

NODWYD

3. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academiaidd ar 13 Gorffennaf ac 16 Medi 2021. Trafodwyd yr adroddiadau gan aelodau'r Senedd.

2. Adroddiad Blynyddol ar Ddisgyblaeth

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cyfadran Gethin Rhys (SEN2121-009).

NODWYD

Cyflwynai'r adroddiad ddadansoddiad interim o archwiliadau a gynhaliwyd o dan Gategori 2 yng ngweithdrefn y Brifysgol ynglŷn â Disgyblu Myfyrwyr. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Bwrdd Academiaidd ar 13 Gorffennaf 2021, ac roedd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd er gwybodaeth.

3. Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i fynychu'r Brifysgol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Wasanaeth Lles y Myfyrwyr (SEN2122-010).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno canlyniadau adolygiad a wnaed o fyfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio ymlaen, a chanlyniadau ac apeliadau yn rhan o drefn y Brifysgol ynglŷn ag Addasrwydd i Fynychu'r Brifysgol ers 2017. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Bwrdd Academaidd ar 13 Gorffennaf 2021, ac roedd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd er gwybodaeth.
 2. Bydd Pennaeth newydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaedd yn arwain adolygiad o'r weithdrefn Addasrwydd i Fynychu'r Brifysgol ar ôl iddo ddechrau yn y swydd yn ystod yr hydref 2021. Cafodd yr aelodau eu sicrhau y byddai cyfle i ymgynghori ag adrannau yn rhan o'r adolygiad hwnnw.
 3. Holwyd ynglŷn â chywirdeb peth o'r data a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Byddai'r data dan sylw'n cael ei adolygu ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.
4. Dyddiadau sesiwn 2023-24

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2122-011).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2021, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried dyddiadau arfaethedig ar gyfer sesiwn academaidd 2023–24. Roedd y dyddiadau, gan gynnwys cyfnodau'r arholiadau diwedd semester, wedi eu nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r dyddiadau a gynigiwyd ar gyfer sesiwn 2023-24, fel y nodwyd yn yr adroddiad [**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

9. **BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad gan Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol Sarah Jones (SEN222-012).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 07 Medi 2021.

10. **PWYLLGOR MOESG YMCHWIL Y BRIFYSGOL**

1. Adroddiad o Bwyllgor Moesg Ymchwil y Brifysgol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil, Lisa Fisher (SEN2122-013).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar 29 Mehefin 2021.

11. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* (SEN2122-014);
2. Grantiau Ymchwil (SEN2122-015); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2122-017).

NODWYD

4. Adroddiad o'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

Nid oedd lleoliad cangen Prifysgol Aberystwyth y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* (CCC) wedi'i drefnu hyd yn hyn. Dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) fod y Grŵp Rheoli Gofodau, y mae hi'n Gadeirydd arno, wedi cymeradwyo argymhelliad i ddarparu lle i swyddfa CCC ym Mhenbryn. Ond nid oedd swyddogion CCC wedi cael yr wybodaeth hon hyd yn hyn.

5. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol

Nid oedd risgiau CRR 39 a CRR 61 yn adlewyrchu'r oblygiadau posibl ynglŷn â gweithgarwch ymchwil. Byddai Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety yn cael ei wahodd i adolygu'r cofnodion risg hyn yn unol â hynny [GWEITHREDU: Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety].

6. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

12. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

1. Adroddiad yn cynnwys y cofnodion canlynol (SEN2122-018):
 1. Y Bwrdd Academaidd (13 Gorffennaf 2021);
 2. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (07 Medi 2021);
 3. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (29 Mehefin 2021); a
 4. Y Cyngor (09 Gorffennaf 2021); a
2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 (SEN2122-018).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

13. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. Milfeddygaeth

Roedd y garfan gyntaf erioed o fyfyrwyr wedi dechrau ar y cwrs Baglor Milfeddygaeth (BVSc) yn y Brifysgol ar 20 Medi 2021. Croesawyd hyn gan yr aelodau. Mae'r cwrs newydd, a ddarperir ar y cyd rhwng PA a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, yn adeiladu ar y radd BSc Gwyddorau Milfeddygol a gyflwynwyd gan y Brifysgol ym mis Medi 2015.

2. Canllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times

1. Croesawodd yr aelodau'r newyddion fod Prifysgol Aberystwyth (PA) wedi codi i blith y 40 uchaf yng Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2022, sy'n adlewyrchiad o'i rhagoriaeth addysgu ac o fodlonrwydd myfyrwyr.
2. Roedd y Brifysgol nawr yn yr ail safle yng Nghymru, ac yn 38 o blith 135 o brifysgolion ledled y Deyrnas Gyfunol - wedi codi o safle 42 y llynedd, y canlyniad gorau erioed i'r Brifysgol yn y Canllaw. Diolchodd yr Is-Ganghellor i bawb am eu cyfraniad ar y llwyddiant hwn.

3. Ffarwelio

Hwn fu cyfarfod olaf y Senedd i Geraint Pugh, am ei fod yn gadael swydd Ysgrifennydd y Brifysgol ym mis Hydref 2021, i ddechrau yn swydd Ysgrifennydd Bwrdd S4C. Diolchodd yr Is-Ganghellor i Ysgrifennydd y Brifysgol am ei gyfraniad i'r Brifysgol a'r Senedd dros yr wyth mlynedd a aeth heibio, a dymuno bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.